RHEOLAU SEFYDLOG

CYNGOR CYMUNED LLANDWROG

Dyddiad mabwysiadu : **Chwefror 18, 2019**

Cynnwys.

1. **Cyflwyniad i`r Rheolau Sefydlog**
2. **Cyfarfodydd y Cyngor**
   - Cyffredinol
   - Trefnu Cyfarfodydd
   - Y cyhoedd
   - Agenda cyfarfodydd
   - Cofnodion
   - Cyfarfod Blynyddol
   - Cyfarfod o`r Cyngor llawn
   - Cyfarfodydd arbennig
   - Cyfarfodydd pwyllgor
   - Cyfarfod gweithgor
   - Cworwm
   - Aelodaeth
3. **Trefn busnes y cyfarfodydd**
   - Arwain y cyfarfod
   - Cynigion, eilio,gwelliannau a phenderfyniadau
   - Pleidleisio
4. **Pwyllgorau a Gweithgorau**
   - Pwyllgorau`r Cyngor
   - Gweithgor
5. **Ymddygiad a chwynion**
   - Ymddygiad mewn cyfarfod
   - Cwynion
6. **Buddiant personol**
7. **Rheolwr Gweinyddol a Chyllid (RhG&C)**
8. **Swyddog Ariannol Cyfrifol**
9. **Cyfrifoldebau i ddarparu gwybodaeth**
10. **Cyfrifoldebau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data**
11. **Rheoli Gwybodaeth**
12. **Adolygu`r Rheolau Sefydlog a'r Polisiau**

RHEOLAU SEFYDLOG - CYNGOR CYMUNED LLANDWROG.

1. **Cyflwyniad i'r Rheolau Sefydlog.**

1.1. Y Rheoliadau yn yr iaith Gymraeg yw'r casgliad ddiffinedig ar gyfer unrhyw achos i sefydlu gwir ystyr a diffiniad y Rheoliadau.

1.2. Mae'r Rheolau Sefydlog hyn i sicrhau fod gweithdrefnau Cyngor Cymuned Llandwrog yn cael ei gyflawni gyda threfn a chysondeb.

1.3. Bydd y Rheolau Sefydlog yn briodol i oll gyfarfodydd, busnes a staff y Cyngor a fydd yn cael eu crybwyll ynddynt.

1.4. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu nifer o bolisïau ar gyfer ei weithgareddau.

1.5. Dyfarniad y Cadeirydd, gyda chyngor a chymorth y **Rheolwr Gweinyddol a Chyllid** (**RhG&C**), fydd yn derfynol mewn unrhyw achos o ddehongli'r Rheolau Sefydlog.

1.6. Ple mae statud, rheoliadau neu orchymyn yn gosod swyddogaeth neu ddyletswydd ar "Swyddog Priodol" y Cyngor yna **Rheolwr Gweinyddol a Chyllid (RhG&C)** y Cyngor fydd y "Swyddog Priodol", neu unrhyw un arall a enwebwyd gan y Cyngor i gyflawni gwaith y RhG&C pan mae'r RhG&C yn absennol.

2. **Cyfarfodydd y Cyngor**.

2.1. Cyffredinol :

2.1.1. Ni chaniateir tynnu lluniau, recordio na darlledu trafodion y cyfarfod mewn unrhyw ffordd heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

2.1.2. Bydd y wasg yn cael cyfleusterau rhesymol ar gyfer gwneud eu hadroddiad o gyfarfod neu ran ohono y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ynddo.

2.1.3. Rhyddheir datganiadau i'r wasg o'r Cyngor gan y RhG&C a hynny gydag awdurdod y Cadeirydd.

2.1.4. Bydd pob cyfarfod gan y Cyngor, ei bwyllgorau neu ei weithgor yn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog. Gall Cadeirydd roi heibio'r Rheolau Sefydlog yn ystod cyfarfod a hynny ond gyda chytundeb o leiaf dwy ran o dair o'r aelodau sydd yn bresennol.

2.2. Trefnu Cyfarfodydd :

2.2.1. Rhoddir isafswm o 3 diwrnod o rybudd gyhoeddus cyn cyfarfodydd. Nid yw'r isafswm yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad arno, diwrnod y cyfarfod, dydd Sul, diwrnod y gwyliau Nadolig, diwrnod gwyliau'r Pasg neu ŵyl banc neu ddiwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

2.2.2. Ni chynhelir cyfarfodydd mewn adeiladau sydd adeg y cyfarfod yn cael eu defnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol, oni bai nad oes unrhyw adeiladau eraill ar gael yn rhad ac am ddim neu am gost resymol.

2.3. Y Cyhoedd **:**

2.3.1. Mae cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd. Tra anogir presenoldeb y cyhoedd, ni chânt gymryd rhan mewn trafodaeth ac eithrio ar gais y Cyngor. Ni all y cyhoedd fynegi eu barn neu ofyn cwestiynau oni bai fod toriad penodedig mewn cyfarfod. Ni fydd toriad o'r fath yn rhan o'r cyfarfod ffurfiol ei hun a rhaid i'r Cyngor gytuno yn unfrydol â'r Cadeirydd fod y toriad i ddigwydd.

2.3.2. Pan ddaw gwybodaeth sydd ym marn y Cadeirydd a`r RhG&C yn gyfrinachol ni fydd yr agenda, papurau'n sy'n ategu'r agenda a chofnodion y cyfarfod yn datgelu, nac mewn unrhyw ffordd arall, yn tanseilio gwybodaeth gyfrinachol. Ni chaiff aelodau a staff ddatgelu gwybodaeth â ddynodwyd yn gyfrinachol.

2.3.3. Bydd y Cadeirydd yn galw ar y cyhoedd i adael cyfarfod er mwyn i'r Cyngor drafod unrhyw achos y mae wedi ei ddyfarnu sydd angen mesur o gyfrinachedd a dwyn gofyn ffurfiol ar yr aelodau i beidio â rhoi manylion i eraill ynghylch unrhyw wybodaeth y maent yn ei dderbyn. Mewn achos o'r fath, ni fydd y RhG&C yn cofnodi'r manylion perthnasol yn y gyfrol o gofnodion cyhoeddus.

2.4. Eitemau (agenda) cyfarfodydd y Cyngor :

2.4.1. Eitemau agenda sy`n galw am roi rhybudd ysgrifenedig i`r RhG&C.

1) Bydd cais am drafodaeth yn ymwneud â chyfrifoldebau'r cyfarfod y'i cyflwynwyd ar ei gyfer a bydd yn ddiwahân yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau, grymoedd neu gyfrifoldebau'r Cyngor neu fater sy'n effeithio'n benodol ar gymuned y Cyngor neu ei drigolion.

2) I gyflwyno cais am drafodaeth mewn cyfarfod rhaid i'r cynigydd roi hysbysiad ysgrifenedig o'i eiriad i'r RhG&C o leiaf 10 diwrnod cyn y cyfarfod. Nid yw dyddiau llawn yn cynnwys diwrnod yr hysbysiad na diwrnod y cyfarfod.

3) Os yw'r RhG&C o'r farn nad yw ystyr geiriad y cais a dderbyniwyd yn glir, caiff ei wrthod nes bod y cynigydd yn ei ail-gyflwyno'n ysgrifenedig i'r RhG&C mewn dull dealladwy a derbyniol o leiaf 7 diwrnod llawn cyn y cyfarfod.

2.4.2 Agenda Cyfarfod Blynyddol.

Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol, ymhlith rhai eraill o ddewis y Cyngor :

1) Ethol Cadeirydd y Cyngor,
2) Ethol Is-gadeirydd y Cyngor,
3) Cadarnhau aelodaeth y Pwyllgorau,
4) Cadarnhau yr aelodau fydd yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgorau allanol megis cyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd.

2.4.3 Agenda Cyfarfodydd o`r Cyngor Llawn

Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol ac fe'i trafodir yn yr un drefn â'i rhestrir islaw, er bydd hawl gan y Cadeirydd i newid y drefn yn ôl y gofyn :

1) Croeso'r Cadeirydd,
2) Ymddiheuriadau,
3) Datgan buddiant,
4) Cyflwyniad gan ymwelwyr / Cynghorwyr Cyngor Gwynedd,
5) Derbyn cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir,
6) Materion yn codi o'r cofnodion,
7) Cofnodion o gyfarfodydd Pwyllgorau ac adroddiadau gan Weithgorau,
8) Materion yn codi o gofnodion y Pwyllgorau,
9) Materion yn codi o adroddiadau Gweithgorau,
10) Gohebiaeth,
11) Ceisiadau cynllunio,
12) Adroddiadau ariano,
13) Materion brys ar gais cynghorydd a gyda caniatad y Cadeirydd,
14) Materion gan gynghorwyr i gyrraedd y cyfarfod llawn nesaf.

2.4.4 Cyfarfod Pwyllgor.

Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol ac fe'i trafodir yn yr un drefn â'i rhestrir :

1) Croeso'r Cadeirydd,
2) Ymddiheuriadau,
3) Datgan buddiant,
4) Trafod rhaglen sydd yn berthnasol i waith y Pwyllgor.

Dallier sylw - rhaid i'r aelodau ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod cyntaf.

2.4.5 Cyfarfod Gweithgor.

Bydd yr agenda yn cynnwys y penawdau canlynol ac fe'i trafodir yn yr un drefn â'i rhestrir :

1) Ethol Cadeirydd,
2) Ymddiheuriadau,
3) Datgan buddiant,
4) Trafod testun neu achos benodol a osodwyd ymlaen llaw gan y Cyngor.

2.5. Cofnodion **:**

2.5.1 Bydd cofnodion swyddogol pob cyfarfod yn cynnwys cofnod manwl-gywir o'r canlynol:

1) dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
2) enwau cynghorwyr sy'n bresennol ac yn absennol ac unrhyw ymddiheuriadau;
3) buddianau a ddatganwyd gan gynghorwyr
4) a wnaeth cynghorydd adael y cyfarfod oherwydd buddiant personol neu'n rhagfarnu;
5) a gafwyd sesiwn cyfranogiad y cyhoedd;
6) cadarnhau Incwm a Thaliadau
7) penderfyniadau a sylwadau perthnasol.

2.5.2 Bydd cofnodion swyddogol ddiffinedig y Cyngor o'i holl gyfarfodydd yn yr iaith Gymraeg. Cadarnheir cywirdeb cofnodion drafft drwy benderfyniad a chânt eu llofnodi gan y Cadeirydd. Maent wedi hynny yn sefyll yn gofnod cywir a swyddogol o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef. Ni fydd amrywiad neu newid i gofnod o gyfarfodar ôl i`r Cyngor ei gadarnhau trwy bleidlais fel un cyflawn a chywir.

2.6. Cyfarfod Blynyddol y Cyngor :

2.6.1. Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn ystod mis Mai. Mewn blwyddyn o etholiad mae'n ofynnol cyfarfod o fewn 14 diwrnod wedi dydd Llun yn dilyn yr etholiad.

2.6.2. Os na chafodd Cadeirydd presennol y Cyngor ei h/ail-ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes yr etholwyd Cadeirydd newydd y Cyngor. Ni fydd gan Gadeirydd presennol y Cyngor bleidlais wreiddiol ar gyfer ethol Cadeirydd newydd y Cyngor ond mae'n rhaid iddo/i roi pleidlais fwrw os yw'r pleidleisio'n gyfartal.

2.6.3. Mewn blwyddyn etholiad, os cafodd Cadeirydd presennol y Cyngor ei h/ail-ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes yr etholwyd Cadeirydd newydd y Cyngor. Gall ddefnyddio pleidlais wreiddiol ar gyfer ethol Cadeirydd newydd y Cyngor ac mae'n rhaid iddo/i roi pleidlais fwrw os yw'r pleidleisio'n gyfartal.

2.6.4. Wedi ethol Cadeirydd y Cyngor ac Is-Gadeirydd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd gwaith y cyfarfod blynyddol yn cynnwys :

1) Mewn blwyddyn etholiad, bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor ac aelodau yn cyflwyno eu ffurflenni derbyn swydd yn y cyfarfod blynyddol onid yw'r Cyngor yn penderfynu y gellir gwneud hyn yn ddiweddarach. Mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, bydd Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn cyflwyno eu ffurflenni derbyn swydd onid yw'r Cyngor yn penderfynu y gellir gwneud hyn yn ddiweddarach;
2) Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod blynyddol diwethaf y Cyngor;
3) Adolygu trefniadau dirprwyo i bwyllgorau a staff;
4) Adolygu cylchoedd gorchwyl pwyllgorau;
5) Penodi aelodau ar bwyllgorau presennol;
6) Penodi unrhyw bwyllgorau newydd;
7) Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol priodol;
8) Adolygu cynrychiolaeth ar neu waith gyda chyrff allanol a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl;
9) Adolygu stocrestr o dir ac asedau gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa
10) Cadarnhau holl bolisiau yswiriant y Cyngor;
11) Adolygu tanysgrifiadau'r Cyngor a/neu staff i gyrff eraill;
12) Adolygu gweithdrefn y Cyngor i ymdrin â chwynion;
13) Adolygu gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer trin ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a`r Deddfwriaeth Diogelu Data sy`n gyfredol ;
14) Adolygu polisi'r Cyngor ar gyfer delio â'r wasg/cyfryngau; a
15) Pennu dyddiad, amser a lle cyfarfodydd llawn y Cyngor (lle gellir) hyd at a chan gynnwys cyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor llawn

2.7. Cyfarfodydd o'r Cyngor llawn - Cynhelir y cyfarfodydd oddi fewn y gymuned yn ystod y drydydd wythnos pob mis, ac yn unol a threfniadau y cyfarfod blynyddol - ag eithrio mis Awst**.** Bydd y Cyngor yn cyfarfod o leiaf un ar ddeg o adegau pob blwyddyn. Mae dyletswydd ar bob aelod i fod yn bresennol a dylai aelod estyn ymddiheuriad at sylw'r RhG&C pan mae'n methu â mynychu cyfarfod.

2.8. Cyfarfodydd arbennig – Cynhelir cyfarfod arbennig ar gais y Cadeirydd; un ai wedi iddo dderbyn cais ysgrifenedig oddi wrth aelod gyda chefnogaeth dau arall o'r aelodau neu, os yw o'r farn bod achos arwyddocaol angen dod at sylw'r Cyngor am benderfyniad brys.

2.9. Cyfarfod pwyllgor - Cynhelir y cyfarfodydd fel y bo'r angen; yn unol â rhaglen waith y Cyngor. Na etholir Cadeirydd nac ychwaith Is-gadeirydd y Cyngor i swyddogaethau ar Bwyllgor.

2.10. Cyfarfod gweithgorau – Cynhelir y cyfarfodydd fel y bo'r angen yn unol â rhaglen waith y Cyngor.

2.11. Cworwm :

2.11.1. Rhaid i bum aelod fod yn bresennol er mwyn cynnal cyfarfod llawn o`r Cyngor, neu dri aelod ar gyfer cynnal pwyllgor neu weithgor.

2.11.2. Oni fydd cworwm o fewn cyfnod o ddeng munud llawn wedi'r amser cychwyn swyddogol i unrhyw gyfarfod, bydd y Cadeirydd yn peidio â'i gychwyn. Pe disgyn y nifer o aelodau yn bresennol mewn cyfarfod yn is na'r cworwm yna bydd y Cadeirydd yn dwyn y cyfarfod i ben yn unionsyth. Caiff y materion ar agenda'r cyfarfod (neu yn weddill heb eu trafod), eu gohirio tan gyfarfod yn y dyfodol.

2.12. Aelodaeth - Gall aelodaeth pwyllgor neu weithgor gynnwys pobl heb fod yn gynghorwyr ac eithrio pwyllgor cyllid y Cyngor.

3. **Trefn busnes yn y cyfarfodydd**.

3.1. Arwain y cyfarfod :

3.1.1. Bydd Cadeirydd i bob cyfarfod a gynhelir gan y Cyngor, ei bwyllgorau a'i weithgorau a hefyd unrhyw gyfarfod arall y mae yn ei gynnal. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod o'r Cyngor.

3.1.2. Yn amodol ar reolau sefydlog sy'n datgan yn wahanol, gall unrhyw beth yr awdurdodwyd i`r Cadeirydd ei wneud, gael ei wneud yn ei absenoldeb gan Is-Gadeirydd y Cyngor.

3.1.3. Bydd y Cadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu mewn cyfarfod. Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd yr Is-Gadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd cynghorydd a ddewisir gan gynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu yn y cyfarfod.

3.1.4. Y Cadeirydd sydd i sicrhau rheolaeth effeithlon a chywir o bob un cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau fod holl gyfarfodydd y Cyngor yn ddigwyddiadau ffurfiol ac yn gosod awdurdod y gadair ar waith i alluogi trafodaethau priodol, penodol a chynhyrchiol. Bydd ei arweiniad ynghylch dehongli Rheolau Sefydlog y Cyngor yn weithredol ym mhob cyfarfod. Gorwedd dyletswydd ar y Cadeirydd i sicrhau bod pob penderfyniad yn gyfreithlon.

3.1.5. Bydd Ceisiadau trafodaeth ar yr agenda yn cael eu hystyried yn y drefn yr ymddangosant oni chaiff y drefn ei newid yn ôl doethineb Cadeirydd y cyfarfod.

3.1.6. Rhaid cyfeirio sylwadau gan aelodau mewn trafodaethau at y Cadeirydd a rhaid i aelod codi ei law/llaw wrth ofyn i gael siarad. Caniateir un aelod yn unig i leisio sylwadau ar y tro, ac fe all y Cadeirydd ofyn i hyn ddigwydd tra fo`r aelod ar ei d/thraed. Os oes mwy nac un person eisiau siarad, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ym mha drefn y byddant yn siarad.

3.1.7. Rhaid i'r aelodau gyfyngu eu sylwadau a'u cyfraniad i'r mater o dan drafodaeth neu i achos cadw trefn yn y cyfarfod.

3.1.8. Ni all Cadeirydd anwybyddu dymuniad aelod oni bai fod y dymuniad hwnnw am achos cadw trefn sydd ddim â dilysrwydd iddo ym marn y Cadeirydd.

3.1.9. Cyfeirir at achos cadw trefn fel mater trefniadaeth yn unol â'r Rheolau Sefydlog ac nid yw yn cyfeirio at sylwadau sylweddol neu wreiddiol mewn trafodaeth. Bydd y Cadeirydd, ar ôl ymgynghoriaeth, yn rheoli ar y mater.

3.2. <u>Cynigion, eilio, gwelliannau a phenderfyniadau</u> :

3.2.1. Fe wneir pob penderfyniad drwy bleidlais.

3.2.2. Unwaith bydd aelod wedi cyflwyno ei gynnig a hwnnw wedi sicrhau eilydd, dylai y Cadeirydd wedyn alw am welliant gan aelod arall. Ni chaniateir i welliant ddiddymu'r cynnig gwreiddiol gerbron y Cyngor a rhaid iddo gyfleu sylwedd gwahanol i gynnwys y cynnig. Ni chaniateir trafodaeth ar gynnig neu welliant unwaith y mae gofyn y Cadeirydd i'r aelodau am eilydd wedi methu.

3.2.3. Bydd aelodau yn ystyried unrhyw welliant i gynnig, wedi ei eilio, ond pe bo Cadeirydd y cyfarfod o'r farn fod gwneud hynny yn briodol. Pe digwydd fod mwy nag un gwelliant i gael sylw yna cant eu cyflwyno mesul un i'r cyfarfod am bleidlais ac mewn trefn sydd yn cychwyn gyda'r diwethaf â fynegwyd gan ddiweddu gyda'r cyntaf â fynegwyd. Ni all cynghorydd gyflwyno mwy nac un gwelliant i gynnig gwreiddiol neu sylweddol.

3.2.4. Pe bai'r cynnig gwreiddiol yn cael ei dynnu'n ôl ymlaen llaw i bleidlais ar welliant yna bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniad drwy bleidleisio ar y gwelliant, fydd wedyn wedi derbyn statws cynnig. Ni ellir cael gwelliant oni bai fod yna gynnig.

3.2.5. Os erys y cynnig ac os cytunir ar welliant, bydd y gwelliant hwnnw wedyn yn dod yn gynnig gerbron i bleidleisio arno neu i'w addasu drwy welliant pellach.

3.2.6. Os cafodd cynnig (gan gynnwys gwelliant) ei eilio, ni chaniateir tynnu`r cynnig neu welliant hwnnw yn ôl ond gyda chydsyniad yr eilydd.

3.2.7. Ni fydd trafodaeth ar gynnig neu welliant fydd wedi ei dynnu`n nôl.

3.2.8. Pan drafodir cynnig neu welliant ni chaniateir i aelod roi cynnig arall am rywbeth amherthnasol i'r drafodaeth a gynhelir oni bai ei fod am un o'r canlynol:

1) i addasu cynnig neu gwelliant;
2) i symud ymlaen i'r eitem nesaf o fusnes;
3) i ohirio'r drafodaeth;
4) i ofyn am i'r cynnig fynd yn unionsyth at bleidlais;
5) i drosglwyddo'r cynnig i bwyllgor neu weithgor;
6) i wahardd y cyhoedd a'r wasg a gofyn am fesur o gyfrinachedd;
7) i roi cyfarwyddyd gan y Cyngor i aelod ddiweddu ei gyflwyniad;
8) i wneud cais am gyfarwyddyd gan y Cyngor i aelod adael cyfarfod;
9) ar pwynt o drefn.

Caiff unrhyw gynnig o'r uchod, sydd wedi ei eilio, ei roi i bleidlais yn syth heb drafodaeth bellach, heb y gofyn am welliant.

3.2.9. Gellir cyflwyno'r cynigion canlynol mewn cyfarfod heb roi hysbysiad ysgrifenedig i'r RhG&C ;

1) cywiro anghywirdeb yng nghofnodion drafft o gyfarfod;
2) symud at bleidlais;
3) gohirio trafodaeth am gynnig;
4) cyfeirio cynnig at bwyllgor neu is-bwyllgor penodol;
5) penodi person i gadeirio mewn cyfarfod;
6) newid trefn materion ar yr agenda;
7) symud ymlaen at y mater nesaf ar yr agenda;
8) gofyn am adroddiad ysgrifenedig;
9) penodi pwyllgor neu is-bwyllgor a'u haelodau;
10) cynyddu'r amser a ganiateir ar gyfer siarad;
11) eithrio'r wasg a'r cyhoedd o gyfarfod oherwydd gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif a all fod yn rhagfarnol i les y cyhoedd;
12) peidio rhoi gwrandawiad pellach i aelod neu aelod o'r cyhoedd;
13) eithrio aelod neu aelod o'r cyhoedd oherwydd ymddygiad afreolus;
14) atal y cyfarfod dros dro;
15) atal rheol sefydlog benodol (oni bai ei bod yn adlewyrchu gofynion statudol gorfodol);
16) gohirio cyfarfod; neu
17) cau cyfarfod.

3.2.10. Caiff aelod y cyfle i egluro ymhellach ar ddiwedd trafodaeth unrhyw elfen o'i gynnig (sydd wedi derbyn eilydd) y mae'n ystyried sydd wedi ei gamddeall.

3.2.11. Nid oes gan gynigydd gwelliant unrhyw hawl i ymateb ar ddiwedd trafodaeth arno.

3.2.12. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu ar hyd ac ehangder trafodaethau a bydd yn ymarfer pwyll a gofal i sicrhau nad oes ail adrodd, gor-ddweud nac anghydbwysedd yng nghyflwyniadau aelodau.

3.2.13. Unwaith y pleidleisir o blaid cynnig yna fe fydd wedyn yn benderfyniad gan y Cyngor a ni chaniateir trafodaeth bellach arno yn yr un cyfarfod.

3.2.14. Bydd penderfyniadau sydd angen gweithred gan y RhG&C yn rhai o fath gweithredol yn unionsyth.Bydd penderfyniadau ynghylch polisïau a safbwyntiau yn weithredol ar gadarnhad o gyfarfod canlynol y Cyngor llawn fod y cofnod am y penderfyniad yn un cywir.

3.2.15. Gellir trafod penderfyniad gan y Cyngor yn dilyn cyfnod o chwe mis calendr ers y cyfarfod a gadarnhaodd y penderfyniad. I wneud hynny, rhaid cael cynnig pellach a rhybudd ysgrifenedig gan o leiaf 5 aelod i'r RhG&C, neu trwy gynnig a gyflwynir yn sgîl argymhelliad pwyllgor.

3.2.16. Pan ymdriniwyd â chynnig yn sgîl rheol 3.2.15 ni ellir cyflwyno cynnig tebyg o fewn cyfnod o chwe mis calendr ers y cyfarfod a gadarnhaodd y penderfyniad.

3.3. <u>Pleidleisio</u> :

3.3.1. Mae pob aelod yn ymrwymedig i benderfyniadau'r Cyngor.

3.3.2. Yn arferol bydd yr aelodau yn pleidleisio trwy ddangos dwylo. Bydd y Cadeirydd yn gofyn am bleidleisiau o blaid ac yn erbyn.

3.3.3. Fe all aelod, cyn y digwydd pleidlais, ofyn i'r RhG&C i'w bleidlais ef gael ei gofnodi.

3.3.4. Caiff aelod ofyn am gofrestru canlyniad pleidlais a bydd y RhG&C wedyn yn cynnwys enwau'r aelodau a'r modd y bu iddynt bleidleisio, neu atal eu pleidlais, yng nghofnodion y cyfarfod.

3.3.5. Cynhelir pleidlais gudd ar bapur pe bo gofyn ar adeg trafodaeth gan o leiaf hanner yr aelodau yn bresennol mewn cyfarfod.

3.3.6. Bydd penderfyniadau'r Cyngor yn seiliedig ar farn y mwyafrif wedi ei gadarnhau gan bleidlais.

3.3.7. Ar adeg pan fo pleidlais yn gyfartal, mae i'r Cadeirydd ail bleidlais i greu penderfyniad a hynny ond ar adeg pan mae wedi gwneud defnydd o'i bleidlais wreiddiol. Ni all Cadeirydd ddefnyddio'r ail bleidlais oni bai iddo bleidleisio yn wreiddiol ar y cynnig.

3.3.8. Bydd datganiad y Cadeirydd, ar sail cyfrif y RhG&C, am ganlyniad pleidlais yn derfynol.

4. Pwyllgorau a Gweithgorau.

4.1. Rhaid i'r Cyngor llawn gytuno ar bob achos o ddirprwyo hawl i weithredu. Caiff hawl ei drosglwyddo i'r RhG&C, bwyllgor a gweithgor. Ni chaiff yr hawl i fenthyca arian fyth ei drosglwyddo o afael y Cyngor llawn.

4.2. Yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, mae'r RhG&C wedi ei awdurdodi i gyflawni gwariant unigol hyd at uchafswm penodedig mewn perthynas â gwasanaethau a chyflenwadau fel y bo'r angen.

4.3. Yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor, mae'r Cadeirydd wedi ei awdurdodi i ganiatáu i'r RhG&C gyflawni gwariant unigol hyd at uchafswm penodedig mewn perthynas â gwaith a ddynodir gan y Cadeirydd, trwy ymgynghoriad â'r Is-gadeirydd, fel gwaith hanfodol o fath brys. Bydd adroddiad manwl i'r Cyngor llawn gan y Cadeirydd yn dilyn pob achlysur o'r fath.

4.4. <u>Pwyllgorau'r Cyngor</u> :

4.4.1. Mae dau bwyllgor sefydlog gan y Cyngor; y naill wedi ei ddynodi gyda'r maes 'Mynwentydd ac Asedau'r Cyngor' a'r llall gyda 'Cyllid y Cyngor'. Maent yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Cyngor. Bydd gan y ddau bwyllgor hyd at 8 aelod ac yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor. Mewn sefyllfa o absenoldeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, gellir ethol aelod i gadeirio'r cyfarfod.

4.4.2. Rhaid ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn ystod cyfarfod cyntaf pob pwyllgor yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Byddent â'r swyddogaeth am gyfnod o ddeuddeg mis. Ni ddylid ethol Cadeirydd nag Is-gadeirydd y Cyngor.

4.4.3. Cyflwynir cofnodion o bob cyfarfod i'r Cyngor llawn nesaf yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor.

4.5. <u>Gweithgor</u> :

4.5.1. Sefydlir gweithgor ar gyfer gweithrediad penodol i argymell arweiniad neu syniadau fel y bo'r angen, neu i drafod achosion arbennig yn ystod mis Awst. Mae'n ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Cyngor a penodir aelodau gan y Cyngor yn unol a`r angen.

4.5.2. Etholir Cadeirydd ar ddechrau pob cyfarfod.

4.5.3. Cyflwynir adroddiadau gan weithgor i'r Cyngor llawn.

4.5.4. Bydd cyfnod gweithgor yn cael ei ddiddymu gan benderfyniad y Cyngor.

5. **Ymddygiad a Chwynion**.

5.1 Ymddygiad mewn cyfarfod **:**

5.1.1. Dylai pob aelod ymddwyn mewn modd cyfrifol, pwyllog a didwyll yn ystod cyfarfodydd gan arddel agwedd parhaol o barch tuag at y Cadeirydd.

5.1.2. Ni chaiff person atal gwaith cyfarfod nac ymddwyn yno'n dramgwyddus neu'n amhriodol. Os anwybyddir y rheol sefydlog hon, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn gofyn i'r cyfryw berson(au) bwyllo neu wella eu hymddygiad.

5.1.3. Os yw person(au) yn anwybyddu cais Cadeirydd y cyfarfod i bwyllo neu wella ei/u hymddygiad, gall unrhyw aelod neu Gadeirydd y cyfarfod gynnig na ddylid rhoi gwrandawiad i'r person mwyach neu y dylid eu heithrio o'r cyfarfod. Cynhelir pleidlais ar y cynnig, os caiff ei eilio, heb unrhyw drafodaeth. Os yw penderfyniad a wneir o dan reol sefydlog o'r bleidlais uchod yn cael ei anwybyddu, gall Cadeirydd y cyfarfod gymryd camau rhesymol i adfer trefn neu i symud y cyfarfod yn ei flaen. Gall hyn gynnwys atal y cyfarfod dros dro neu ei gau.

5.1.4. Dylai aelod sydd yn absennol o gyfarfod anfon gair o ymddiheuriad trwy un ai e-bost, lythyr neu neges ar lafar i'w gyhoeddi yn y cyfarfod gan aelod arall neu'r RhG&C.

5.1.5. Yn unol a Chymal 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fe ddaw aelodaeth i ben ar ddiwedd chwe mis o'r dyddiad y cyfarfod olaf y bu aelod yn bresennol oni bai fod y Cyngor wedi penderfynu derbyn mae'r rheswm am absenoldeb yn un dilys neu. Mewn achos o absenoldeb hir dymor fe adolygir rheswm yr absenoldeb yn fisol**.**

5.2. Cwynion :

5.2.1. Bydd y Cyngor yn ymdrin â chwynion, nid anhysbys, oddi wrth y cyhoedd neu eraill am aelod neu'r RhG&C mewn modd ffurfiol, cyflym a phriodol. Dylai cwynion am aelod fynd at sylw'r RhG&C tra bo cwynion am y RhG&C i fynd at sylw'r Cadeirydd. Dylid galw cyfarfod brys o'r Cyngor llawn cyn gynted ag y bo modd i drafod unrhyw gwyn, nid anhysbys, difrifol a ddaw yn swyddogol i law. Rhaid i'r cwyn fod yn ysgrifenedig gan y cwynwr. Bydd Cadeirydd y cyfarfod brys yn dyfarnu ymlaen llaw ynghylch gwahodd i'r cyfarfod yr unigolyn sydd dan sylw gan y cwynwr. Cyflwynir penderfyniad y Cyngor o'r cyfarfod brys, a'r rhesymau drostynt, yn ysgrifenedig i'r cwynwr a'r unigolyn sydd dan sylw gan y cwynwr mor fuan a gellir gwneud hynny wedi'r cyfarfod

5.2.2. Dylid rhoi gwybod i Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru am bob cwyn sy'n ymwneud â Chynghorau Cymuned a Thref yn torri'r Côd Ymddygiad.

6. **Buddiant personol**.

6.1. Mae dyletswydd ar bob aelod i weithredu'n briodol a chydymffurfio â chòd ymddygiad yn unol â Bolisi'r Cyngor sydd yn gosod arweiniad i'r aelodau ynghylch cynnal safonau ymddygiad priodol. Mae'r côd yn seiliedig ar yr egwyddorion a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hanfod y côd yw y gofyn i aelodau i weithredu'n agored ac yn anrhydeddus er budd y cyhoedd.

6.2. Rhaid i aelod ddatgan buddiant personol neu buddiant sydd yn rhagfarnu cyn gynted ag y bydd yn ymwybodol y gallai (neu bobl yn agos iddo megis teulu neu gyfeillion) elwa yn fwy na'r rhan fwyaf o bobl eraill yn y gymuned, ar ganlyniad achos dan sylw gan y Cyngor. Mae hyn yn berthnasol pa un a yw'n gyfarfod llawn y Cyngor, yn bwyllgor neu yn weithgor. Rhaid iddo ymadael o'r cyfarfod cyn y drafodaeth berthnasol oni bai ym marn Cadeirydd fod y cysylltiad yn un pell lle gall wahodd yr aelod i aros yn y cyfarfod ond ni chaiff gymryd rhan yn y drafodaeth na'i phleidlais.

6.3. Rhaid gwneud ceisiadau am oddefeb yn ysgrifenedig a'u cyflwyno i Swyddog Priodoldeb Cyngor Gwynedd cyn gynted ag y bo modd cyn y cyfarfod y mae angen yr oddefeb ar ei gyfer.

7. Rheolwr Gweinyddol a Chyllid (RhG&C).

7.1. Bydd y RhG&C :

1) o leiaf dri diwrnod llawn cyn cyfarfod o'r Cyngor a pwyllgor yn rhoi i aelodau, wŷs yn bersonol, trwy'r post yn eu preswylfeydd, neu trwy ebost, yn cadarnhau'r amser, y lle a'r agenda ar yr amod fod unrhyw ebost o'r fath yn cynnwys llofnod electronaidd a theitl y RhG&C.
2) yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r amser, y lle a'r agenda cyn cyfarfod llawn o'r Cyngor neu gyfarfod pwyllgor (rhaid i hysbysiad cyhoeddus gydag agenda ar gyfer cyfarfod arbennig o'r Cyngor wedi ei alw gan aelodau fod wedi ei lofnodi ganddynt);
3) yn cynnwys ar yr agenda yr holl fusnes i gael sylw yn y drefn y'u derbyniwyd oni roddodd aelod hysbysiad ysgrifenedig o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod yn cadarnhau ei f/bod yn ei dynnu'n ôl.
4) yn cynnull cyfarfod o'r Cyngor llawn ar gyfer ethol Cadeirydd newydd i'r Cyngor, a hynny oherwydd y daeth ei swydd yn wag;
5) yn gwneud trefniadau i alluogi etholwyr llywodraeth leol i archwilio'r llyfr cofnodion;
6) yn cadw ffurflenni derbyn swyddi gan gynghorwyr;
7) yn derbyn a chadw copïau o is-ddeddfau a wnaed gan awdurdodau lleol eraill;

8) yn cadw copi o gofrestr buddiannau pob cynghorydd;
9) yn cynorthwyo gydag ymateb i geisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a`r Deddfwriaeth Diogelu Data sy`n gyfredol, yn unol â ac yn amodol ar bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ar y mater dan sylw;
10) yn derbyn a danfon gohebiaeth a hysbysiadau cyffredinol ar ran y Cyngor ac eithrio pan wnaed penderfyniad yn groes i hynny;
11) yn rheoli'r gwaith o drefnu, storio, cael mynediad at a dinistrio gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor ar bapur ac ar ffurf electronaidd;
12) yn trefnu fod gweithredoedd cyfreithiol yn cael eu cyflawni;
13) yn trefnu neu'n rheoli awdurdodi, cymeradwyo a chyfarwyddo'n ddiymdroi unrhyw daliadau i'w gwneud gan y Cyngor yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor;
14) yn cofnodi pob cais cynllunio y cafodd y Cyngor wybod amdanynt ac ymateb y Cyngor i'r awdurdod cynllunio lleol mewn llyfr pwrpasol i'r perwyl hwnnw;
15) drefnu cyfarfod arbennig os yw natur y cais cynllunio yn golygu fod rhaid ei ystyried cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

8. Swyddog Ariannol Cyfrifol.

8.1 Y **Rheolwr Gweinyddol a Chyllid (RhG&C)** yw Swyddog Ariannol y Cyngor. Bydd y Cyngor yn penodi aelod(au) priodol i gyflawni gwaith y Swyddog Ariannol Cyfrifol pan mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn absennol.

9. Cyfrifoldebau i ddarparu gwybodaeth

9.1 Yn unol â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth, bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'i bolisi ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth sydd ym meddiant y Cyngor.

10. Cyfrifoldebau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data

1) Gall y Cyngor benodi Swyddog Diogelu Data.
2) Bydd gan y Cyngor bolisi a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i unigolyn sy'n defnyddio hawliau statudol ynghylch ei ddata/data personol.
3) Bydd gan y Cyngor bolisi ar gyfer ymateb i a rheoli achos o dorri amodau trin data personol.
4) Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o'r holl achosion o dorri amodau trin data personol yn cynnwys y ffeithiau ynghylch yr achos o dorri amodau trin data personol, ei effeithiau a'r camau adferol a gymerwyd.

5) Bydd y Cyngor yn gofalu fod yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ei hysbysiad(au) preifatrwydd mewn ffurf hygyrch hwylus a'i bod yn cael ei chadw'n gyfredol.

6) Bydd y Cyngor yn cadw cofnod ysgrifenedig o'i weithgarwch prosesu.

11. Rheoli Gwybodaeth

1) Bydd y Cyngor yn trefnu ac adolygu camau technegol a sefydliadol i gadw'n ddiogel wybodaeth (gan gynnwys data personol) a gedwir ganddo ar bapur ac yn electronaidd. Bydd y cyfryw drefniadau yn cynnwys penderfynu pwy gaiff fynediad at ddata personol ac amgryptio data personol.

2) Bydd y Cyngor yn trefnu ac adolygu polisïau ar gyfer cadw a dinistrio'n ddiogel yr holl wybodaeth (gan gynnwys data personol) a gedwir ganddo ar bapur ac yn electronaidd. Bydd polisi cadw'r Cyngor yn cadarnhau am ba gyfnod y caiff gwybodaeth (gan gynnwys data personol) ei chadw neu os nad yw hynny'n bosib y meini prawf a ddefnyddir i bennu'r cyfnod hwn (e.e. Deddf Cyfyngu 1980).

3) Ni fydd yr agenda, y papurau sy'n cefnogi'r agenda a chofnodion cyfarfod yn datgelu nac yn tanseilio mewn unrhyw ffordd arall wybodaeth gyfrinachol na data personol heb gyfiawnhad cyfreithiol.

4) Ni fydd cynghorwyr, staff, contractwyr ac asiantwyr y Cyngor yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol na data personol heb gyfiawnhad cyfreithiol.

12. Adolygu'r Rheolau Sefydlog a'r Polisiau

12.1 Pan dderbynnir cynnig sydd wedi ei eilio i ychwanegu at, newid neu ddileu Rheol Sefydlog bydd yr achos yn cael ei ohirio heb drafodaeth i'w roi ar agenda ac i'w ystyried yng nghyfarfod y Cyngor llawn canlynol.

12.2 O bryd i'w gilydd fe adolygir y Rheolau Sefydlog a holl bolisiau y Cyngor yn eu cyfanrwydd.